**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Archwilio Partneriaethau

**Dyddiad y Cyfarfod:** 30 Gorffennaf 2015

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd David Smith (Parth y Cyhoedd) Graham H Boase (Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)

**Awdur yr Adroddiad:** Graham H Boase Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd/ Emlyn Jones Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd

**Teitl:** Adroddiad diweddaru ynghylch Teledu Cylch Cyfyng Sir Ddinbych

---

## 1.0 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Darparu Aelodau gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth ymadael Teledu Cylch Cyfyng (TCC) y Cyngor, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid i geisio sicrhau model darparu TCC amgen ar gyfer y dyfodol.

## 2.0 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Penderfynodd yr Aelodau, fel rhan o Ryddid a Hyblygrwydd y Cyngor, na ddylai'r Cyngor fod yn ariannu neu'n rheoli'r gwasanaeth TCC o 1 Ebrill 2016. Bydd hyn yn darparu £200k o arbedion ar gyfer 2016/17. Gofynnodd Aelodau i Swyddogion weithio gyda phartneriaid i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu model darparu gwasanaeth TCC gwahanol. Y rheswm dros yr adroddiad hwn yw diweddaru Aelodau ar y cynnydd hyd yma.

## 3.0 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad hwn ac yn cefnogi'r gwaith a wneir gan Swyddogion hyd yma o ran symud ymlaen gyda'r penderfyniad i gau swyddogaeth TCC y Cyngor, wrth archwilio modelau darparu amgen posibl.

## 4.0 Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae system TCC y Cyngor yn cael ei weithredu a'i reoli gan Wasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd gyda'r Ystafell Reoli yng Ngorsaf Heddlu'r Rhyl.

4.2 Prif ddiben y system yw cefnogi dull y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i leihau'r lefel o droseddau ac ofn troseddau, i ddarparu amgylchedd diogel cyhoeddus er budd y rhai sy'n byw, yn ymweld ac yn gweithio yn y 3 tref yn y Sir sydd â TCC gofod cyhoeddus, sef y Rhyl, Prestatyn a Rhuddlan.

4.3 Mae'r gwasanaeth hefyd yn monitro nifer fach o gamerâu TCC wedi'u lleoli ar dir ac adeiladau'r Cyngor at ddibenion diogelwch.

4.4 Mae Swyddogion y Cyngor yn staffio'r ystafell rheoli TCC, gan weithio shifftiau i ddarparu gwasanaeth 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn i fonitro'r camerâu.

4.5 Caiff y camerâu TCC Gofod Cyhoeddus eu dyrannu fel a ganlyn:

- Y Rhyl 59 Camera
- Prestatyn 18 Camera
- Rhuddlan 4 Camera

Mae'r holl gamerâu hyn yn gamerâu byw, wedi eu cysylltu â'n prif ystafell rheoli TCC yng Ngorsaf Heddlu'r Rhyl ac yn cael eu monitro gan ein gweithredwyr TCC.

4.6 Yn dilyn y penderfyniad i gau'r Gwasanaeth TCC, mae swyddogion wedi ymgysylltu â phartneriaid i ffurfio gweithgor i ymchwilio i opsiynau o ddarparu gwasanaeth TCC llai yn y dyfodol.

4.7 Mae aelodaeth y gweithgor yn cynnwys cynrychiolydd o Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Tref y Rhyl, Cyngor Tref Prestatyn, Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl, Grŵp Ardal Aelodau Prestatyn a Grŵp Ardal Aelodau Elwy. Mae'r grŵp wedi cytuno ar ei gylch gorchwyl ac wedi cyfarfod bedair gwaith.

4.8 Mae'r holl bartneriaid yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth TCC. Mae trafodaethau wedi'u cynnal mewn perthynas â gwahanol fathau posibl o fodelau darparu gwasanaeth.

4.9 Cytunwyd i ganolbwyntio ar fodel darparu sy'n golygu cadw'r camerâu TCC i weithredu a recordio ond heb eu monitro. Byddai angen i un aelod o staff gynnal y system a bod yn bwynt cyswllt ac yn gydlynydd rhwng yr holl Bartneriaid. Nid oes cytundeb wedi'i sicrhau ar bwy fyddai'r Partner Arweiniol, yn gyfrifol am y gyllideb, i gyflogi aelod o staff ac ati.

4.10 Byddai'r model darparu Gwasanaeth TCC gofynnol yn costio tua £65k am 12 mis ac yn cael ei ddadansoddi fel a ganlyn:

| GWEITHGAREDD | DISGRIFIAD BYR | COSTAU A RAGWELIR AR GYFER GWASANAETH TCC GOFYNNOL |
|---|---|---|
| 1 Aelod o staff | Wedi'i leoli yng Ngorsaf Heddlu'r Rhyl i reoli'r gwasanaeth gofynnol | £25k |
| Cwadrant | Atgyweirio a chynnal a chadw'r ystafell Reoli | £9k |

| | | |
|---|---|---|
| Camera stryd | Atgyweirio a chynnal a chadw camerâu | £17k |
| BT Redcare | Ansawdd y lluniau | £5k |
| Costau'r Ystafell Reoli | Trydan, awyru ac ati | £9k |

4.11 O ran sut y gellir diwallu'r costau hyn, mae'r Gweithgor wedi cytuno'n fras ar y canlynol:-

- Heddlu Gogledd Cymru – Byddant yn parhau i gyfrannu'r un swm at y gwasanaeth TCC ag y maent wedi'i wneud mewn blynyddoedd blaenorol (oddeutu £16.5k)
- Cyngor Tref y Rhyl – Cytuno mewn egwyddor i gyfrannu'n ariannol at fodel newydd (tua £15k)
- Cyngor Tref Prestatyn – Cytuno mewn egwyddor i gyfrannu'n ariannol at fodel newydd (tua £8.5k)
- Cyngor Tref Rhuddlan – Eto i'w ystyried yn llawn gan y Cyngor Tref ond gobeithir y gallent ymrwymo tua £3.5k.
- Ad-daliadau mewnol i wasanaethau sy'n cael budd o ddiogelwch o ganlyniad i'r camerâu nad ydynt mewn gofod cyhoeddus yn cael eu cysylltu â'r system – tua £17.5k
- Taliadau allanol ar gyfer camerâu preifat sy'n gysylltiedig â'r system – tua £3k.

4.12 Mae hyn yn rhoi tua £64k o "incwm" i wrthbwyso'r costau o tua £65k. Felly, mae'n ymddangos bod y model yn hyfyw, a gofynnwyd i'r Gwasanaethau Cyfreithiol ddrafftio Cytundeb i'r Partneriaid i'w ystyried ar sail cyfnod prawf o 12 mis.

4.13 Mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl arbedion ariannol o gau'r gwasanaeth TCC yn cael eu sicrhau erbyn 31 Mawrth 2016. Mae hyn yn cynnwys yr holl gostau dileu swyddi. Mae felly yn golygu y bydd angen i'r Gwasanaeth TCC gau yn ystod yr hydref; 31 Hydref 2015 yn fwy na thebyg.

4.14 Mae Swyddogion a'r Partner AD wedi cyfarfod gyda'r holl staff TCC a'r cynrychiolydd Unsain i drafod y broses. Rydym ar hyn o bryd mewn cyfnod o ymgynghori â staff ar y broses dileu swyddi.

**5.0 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae gweithredu gwasanaeth TCC mannau cyhoeddus yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at y blaenoriaethau corfforaethol o amddiffyn pobl ddiamddiffyn yn ein cymunedau a chadw ein strydoedd yn lân ac yn daclus.

**6.0 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Bydd costau'n cael eu cynnwys o fewn cyllidebau gan ystyried y gofyniad Rhyddid a Hyblygrwydd o £200k o arbedion ar gyfer 2016/17.

**7.0 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb? Wedi gwneud (AEG) ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEG wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Mae effaith bosibl y penderfyniad hwn wedi cael ei asesu. Os penderfynir symud ymlaen ag unrhyw un o'r cynigion a soniwyd amdanynt yn gynharach, yna rhaid eu hasesu am effaith cydraddoldeb.

**8.0 Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae adroddiadau wedi'u cyflwyno i Aelodau drwy'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd. Ymgysylltwyd â'r Staff TCC a'r Undebau. Mae'r Gweithgor yn cynnwys sefydliadau partner (HGC, Cynghorau Tref a MAG perthnasol) sydd i gyd yn rhan o'r broses ymgynghori.

**9.0 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Bydd y cynigion yn yr adroddiad hwn yn galluogi gweithredu penderfyniad y Cyngor ar 9 Rhagfyr 2014 i dynnu £200k o'r maes gwasanaeth hwn yn 2016/17. Roedd hyn yn rhan o arbedion Cam 2 Rhyddid a Hyblygrwydd.

**10.0 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Nid oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**11.0 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Nid oes angen penderfyniad ffurfiol.

11.2 Mae Erthygl 6.3.2(c) o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi y gall Archwilio "ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion" ac mae Erthygl 6.3.3(a) yn nodi y gall Archwilio "gynorthwyo'r Cyngor a'r Cabinet i ddatblygu ei gyllideb a'r fframwaith polisi ..."